# Asesiad Llwybrau Cerdded i Ysgolion RhCT

## Llwybrau i Ysgol Afon Wen ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain



REDSTART™

## YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cleient") ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti ("Gwybodaeth Trydydd Parti"). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

## RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Aliniad Polisi 2
3. Gweithdrefnau 4
4. Lleoliad y Safle a Llwybrau Cerdded 5
5. Arolygon Cerddwyr/Traffig 244
6. Materion Cymdeithasol 300
7. Data Gwrthdrawiadau 311
8. Trosolwg Llwybr **Error! Bookmark not defined.**
9. Casgliadau ac Argymhellion 3636

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gynnal asesiad er mwyn pennu argaeledd y llwybr cerdded rhwng y lleoliadau canlynol:

- **Prif Lwybr** – Ysbyty Dewi Sant i Ysgol Afon Wen.
- **Is-lwybr 1** – Trallwng i Bont y Doctor (yn ymuno â'r **Prif Lwybr**).
- **Is-lwybr 2** - Hen Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i Heol Pentrebach (yn ymuno ag **Is-lwybr 1**).
- **Is-lwybr 3** – Heol Caerdydd i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain (yn gadael y **Prif Lwybr**).

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu'r llwybr cerdded, bydd angen cynnal asesiad o'r peryglon sy'n wynebu plant a'r rhieni/cynhalwyr sy'n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol.

1.3 Bydd asesiadau o'r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i'r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol 'ar gael' (diogel) i'w gerdded neu'n cael ei ystyried 'ddim ar gael' (anniogel) a'r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' (yn ddiogel) i'w gerdded neu y gall ddod yn 'ddiogel'.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- "Camau i lawr" ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim "camau i lawr", ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesi ffyrdd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gwelededd – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio'n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod;

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol. Ar gyflymder cerdded o 1 metr yr eiliad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gwelededd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar gael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle ar droed i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad ar droed:

- Rhyng-welededd rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

3.2.1 Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad:

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd;


b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.

# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg Llwybr (Prif Lwybr ac Is-lwybrau cyfagos)

4.1.1 Mae'r **Prif Lwybr** yn cychwyn yn Ysbyty Dewi Sant, CF37 1LB, Pontypridd, gan fynd ymlaen ar hyd y Stryd Fawr, Broadway, Heol Caerdydd a Lôn yr Ysgol at giatiau Ysgol Afon Wen, Lôn yr Ysgol, Y Ddraenen Wen, Pontypridd CF37 5AL. Mae tri is-lwybr arall hefyd wedi'u hasesu yn rhan o'r adroddiad. Dangosir pob llwybr yn **Nelwedd 4.1 isod**.

**Delwedd 4.1 – Llwybr 4 – Prif Lwybr ac Is-lwybrau i Ysgol Afon Wen ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain (Delwedd © 2024 Airbus)**




- **Prif Lwybr** - Ysbyty Dewi Sant i Ysgol Afon Wen trwy'r Stryd Fawr, Broadway, Heol Caerdydd, Lôn yr Ysgol, Ysgol Afon Wen.
- **Is-lwybr 1** – Trallwng i Bont y Doctor ar hyd Stryd Ralph, Maes y Ffowndri, pont droed i Glos Coedpenmaen, Heol Coedpenmaen (sy'n cael ei adnabod yn lleol fel Bryn Corn Stores), Heol Ynysangharad, Heol Pentrebach, Pont y Doctor.
- **Is-lwybr 2** – Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i Heol Pentrebach ar hyd Ffordd Merthyr, Heol Pentrebach.
- **Is-lwybr 3** – Heol Caerdydd i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain ar hyd Heol Caerdydd, Coedlan Glyn-dŵr, Rhodfa Ilan, Stryd y Leimwydden, Stryd y Celyn, Heol Dynea, Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain.

4.1.2 Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau ar gyfer rhai rhannau byr gyda'r gofyniad i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Mae disgyblion ar hyn o bryd yn cerdded o Broadway i Ysgol Afon Wen ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain ar lwybrau sydd eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd. Mae cysylltiadau i Ysgolion Cynradd, ac oddi yno, yng Nghoedpenmaen, Maes-y-Coed, Trallwng, y Comin, Trefforest a Rhydfelen eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd..

4.1.3 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.1.4 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.1.5 Mae terfynau cyflymder yn amrywio ar hyd y llwybrau, ond mae terfyn cyflymder o 20mya yn ei le ar hyd y rhan fwyaf o’r llwybrau ac roedd llif cerbydau yn gymedrol.

4.1.6 Mewn mannau, mae angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gwelededd i gerddwyr. Bydd gofyniad parhaus i gynnal twf llystyfiant yn yr ardaloedd hyn.

4.1.7 Tynnwyd ffotograffau ar hyd y llwybrau cerdded ac fe'u dangosir isod.

## 4.2 Prif Lwybr – Ysbyty Dewi Sant i Ysgol Afon Wen

4.2.1 Tynnwyd ffotograffau 4.1 i 4.16 ar hyd y **Prif Lwybr** o Ysbyty Dewi Sant, Stryd Fawr, Broadway, Heol Caerdydd, a Lôn yr Ysgol i gatiau Ysgol Afon Wen, Lôn yr Ysgol.

4.2.2 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder o 40/30mya a 20mya, gyda llif cerbydau i'w gweld yn gymedrol i uchel yn ystod amser yr asesiad, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol.

**Ffotograff 4.1 – Troedffordd gul <1.0metr ar hyd y Stryd Fawr wrth ddynesu at y croesfannau â signalau (troedffordd orllewinol), nodir bod y droedffordd gyferbyn ar gael.**




**Ffotograff 4.2 - Cyffordd yr A4058 Broadway/B4595 Broadway - croesfannau i gerddwyr heb eu rheoli ac â signalau**



**Ffotograff 4.3 - Troedffordd ogleddol y B4959 Broadway yn culhau a llinell goed, sachau sbwriel a biniau olwynion hefyd wedi'u nodi yn lleihau lled y llwybr troed defnyddiadwy ar hyd y Broadway.**




**Ffotograff 4.4 – B4595 Broadway, croesfan uchel heb ei reoli**



**Ffotograff 4.5 – Croesfan Sebra uchel gyda hebryngwr croesfan y tu allan i Ysgol Parc Lewis**




**Ffotograff 4.6 – Coed/llystyfiant wedi gordyfu ac arwyneb troedffordd anwastad dros wreiddiau coed**



**Ffotograff 4.7 – Croesfan a reolir gan signalau wrth ddynesu at Bont y Doctor**




**Ffotograff 4.8 – Llwybr Defnydd a Rennir Teithio Llesol wrth ddynesu at Bont y Doctor**



**Ffotograff 4.9 a 4.10 – Croesfan a signalau Llwybr Teithio Llesol a llwybr troed cul ar yr A4054 Heol Caerdydd**






**Ffotograff 4.13 a 4.14 – Llystyfiant wedi gordyfu yn cyfyngu ar led llwybrau troed ar hyd yr A4054 Ffordd y Coleg**





**Ffotograff 4.15 – Parcio ar y stryd yn cyfyngu ar led troedffyrdd ar hyd yr A4059 Heol Caerdydd**




**Ffotograff 4.16 – Croesfan Twcan Newydd yn Ysgol Afon Wen**



## 4.3 Is-lwybr 1 – Trallwng i Bont y Doctor

4.3.1 Tynnwyd ffotograffau 4.17 i 4.26 ar hyd Is-lwybr 1 o Sgwâr Canolog Trallwng, Stryd Ralph, Maes y Ffowndri, pont droed i Glos Coedpenmaen, Bryn Corn Stores, Heol Ynysangharad i Heol Pentrebach.

4.3.2 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder o 20/30mya, gyda llif a chyflymder cerbydau i'w gweld yn gymedrol yn ystod amser yr asesiad, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol.

**Ffotograff 4.17 – Stryd Ralph, Trallwng**




**Ffotograff 4.18 - Strydlun agored ar ddynesiad Maes y Ffowndri at Drosbont yr A470**



**Ffotograff 4.19 – Coed yn hongian ar hyd ramp trosbont yr A470 i Glos Coedpenmaen**




**Ffotograff 4.20 a 4.21 – Croesfan heb ei rheoli ar gyffordd yr A4054 â Stryd y Bont**






**Ffotograff 4.22 – Llwybr troed a mannau "cam i lawr" ar Heol Ynysangharad**




**Ffotograff 4.23 – Troedffordd yn culhau oherwydd gordyfiant llystyfiant ar Heol Pentrebach**



**Ffotograff 4.24 – Troedffordd Heol Pentrebach i Drosbont yr A470**




**Ffotograff 4.25 – Gordyfiant llystyfiant ar droedffordd ddwyreiniol Heol Pentrebach i Lyn-taf**



**Ffotograff 4.26 – Croesfan a reolir gan signalau ar droedffordd Ddwyreiniol Heol Pentrebach i Lyn-taf**



## 4.4 Is-lwybr 2 – Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i Heol Pentrebach

4.4.1 Tynnwyd ffotograffau 4.27 i 4.32 ar hyd Is-lwybr 2 o Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton, Ffordd Merthyr i Heol Pentrebach.

4.4.2 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder o 20mya, gyda llif a chyflymder cerbydau i'w gweld yn gymedrol yn ystod amser yr asesiad, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol.

**Ffotograff 4.27 – Cerbydau Ffordd Merthyr wedi'u parcio ar droedffordd ddwyreiniol wrth ddynesu at Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton**




**Ffotograff 4.28 – Ffordd Merthyr wrth y gerddi rhandir - cerbydau wedi'u parcio ar droedffyrdd**



**Ffotograffau 4.29 a 4.30 – Cyffordd yr A4054 â llwybr troed Ffordd Merthyr a choed yn hongian**







**Ffotograff 4.31 - Troedffordd orllewinol yr A4054 Ffordd Merthyr yn culhau oherwydd llystyfiant**



**Ffotograffau 4.31 a 4.32 – Troedffordd gul wrth ddynesu at gyffordd Heol Ynysangharad â'r A4054 Ffordd Merthyr**






## 4.5 Is-lwybr 3 – Heol Caerdydd i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

4.5.1 Tynnwyd ffotograffau 4.33 i 4.40 ar hyd Is-lwybr 3 o Heol Caerdydd, Coedlan Glyn-dŵr, Rhodfa Ilan, Stryd y Leimwydden, Stryd y Celyn, Heol Dynea i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain .

4.5.2 Mae'r llwybr o fewn Parth traffig wedi'i arafu 20mys (clustogau arafu), a gwelwyd bod llif a chyflymder cerbydau yn isel i gymedrol yn ystod amser yr asesiad ac roedd nifer y cerddwyr yn isel.

**Ffotograffau 4.33 a 4.34 – Cerbydau Stryd y Celyn wedi'u parcio ar droedffordd**





**Ffotograff 4.35 – Croesfan Sebra ar Stryd y Celyn**




**Ffotograff 4.36 – Cerbydau Stryd y Celyn wedi'u parcio ar droedffyrdd**



**Ffotograff 4.36 a 4.37 - Torri trwy Stryd y Leimwydden i Stryd y Celyn gyda mannau "cam i lawr"**







**Ffotograff 4.38 – llwybr troed deheuol Coedlan Llan**



**Ffotograff 4.39 – Cerbydau Coedlan Glyn-dŵr wedi'u parcio ar droedffyrdd**



**Ffotograff 4.40 a 4.41 – Cerbydau Coedlan Glyn-dŵr wedi'u parcio ar droedffyrdd**






# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gwelededd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Gyda'r meini prawf uchod mewn golwg, cynhaliwyd arolygon traffig i sefydlu llifoedd, cyflymder yr 85fed canradd a bylchau croesi yn y lleoliadau canlynol:

5.9.1 **Prif Lwybr** - Canghennau Mynediad/ Ymadael System Gylchu Glyn-taf - Lleoliad croesfan heb ei reoli i gerddwyr er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.







5.9.2 **Is-lwybr 1** - Cyffordd yr A4054 yn System Gylchu Stryd y Bont - Lleoliad croesfan heb ei reoli i gerddwyr er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.



5.9.3 **Is-lwybr 1** - Heol Pentrebach – Lleoliad posibl ar gyfer croesfan heb ei reoli i gerddwyr er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.



5.9.4 **Is-lwybr 2** - Cyffordd Ffordd Merthyr/yr A4054/Heol y Comin – Lleoliad croesfan heb ei reoli i gerddwyr er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.





5.9.5 **Is-lwybr 2** – yr A4054 Heol HEOL Pont Siôn Norton yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton – Lleoliad posibl ar gyfer croesfan heb ei reoli i gerddwyr er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.



5.10 Cynhaliodd Swyddogion Trafnidiaeth RhCT gyfrifiadau traffig yn y lleoliadau hyn.

5.11 Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu'r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.11.1 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.11.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio 6 eiliad a lle mae'r bwlch yn fwy na neu'n hafal i 12 eiliad mae hyn wedi'i gyfrif fel 2 neu fwy o fylchau.

5.12 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig yn y lleoliadau fel y manylir isod, gyda chyfrifiadau rhwng 07:45 a 08:45 a 14:45 a 15:45. Yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr, mae'r cyfnod a gofnododd y traffig mwyaf wedi'i gynnal eto i gadarnhau cysondeb y data.

5.12.1 **Lleoliad 1 – Canghennau Mynediad System Gylchu Glyn-taf - 12/09/2024**

- ❖ **Yn y bore:** 538 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 10 i 25, gyda chyfanswm o 199 o fylchau dros y cyfnod awr.
- ❖ **Yn y prynhawn:** 703 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 4 i 18, gyda chyfanswm o 128 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.2 **Ailymweld â Lleoliad 1 – Prif Lwybr Cangen Mynediad System Gylchu Glyn-taf 13/09/2024**

- ❖ **Yn y prynhawn:** 618 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 5 i 20, gyda chyfanswm o 131 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.3 **Lleoliad 2 – Prif Lwybr Cangen Ymadael System Gylchu Glyn-taf - 11/09/2024**

- ❖ **Yn y bore:** 713 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 9 i 19, gyda chyfanswm o 152 o fylchau dros y cyfnod awr.
- ❖ **Yn y prynhawn:** 591 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 12 i 27, gyda chyfanswm o 213 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.4 **Ailymweld â Lleoliad 2 – Prif Lwybr Cangen Ymadael System Gylchu Glyn-taf - 13/09/2024**

- ❖ **Yn y prynhawn:** 574 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 9 i 28, gyda chyfanswm o 218 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.5 **Lleoliad 3 – Is-lwybr 1 Heol Pentrebach - 18/09/2024**

- **Yn y bore:** 758 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 8 i 20, gyda chyfanswm o 153 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 575 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 8 i 22, gyda chyfanswm o 179 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.6 **Ailymweld â Lleoliad 3 – Is-lwybr 1 Heol Pentrebach - 19/09/2024**

- **Yn y bore:** 731 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 7 i 15, gyda chyfanswm o 119 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.7 **Lleoliad 4 - Is-lwybr 2 - Ffordd Merthyr ar y gyffordd â Corn Stores - 26/09/2024**

- **Yn y bore:** 569 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 9 i 18, gyda chyfanswm o 145 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 644 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 7 i 16, gyda chyfanswm o 112 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.8 **Ailymweld â Lleoliad 4 – Is-lwybr 2 – Ffordd Merthyr ar y gyffordd â Corn Stores – 27/09/2024.**

- **Yn y prynhawn:** 733 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 5 i 17, gyda chyfanswm o 106 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.9 **Lleoliad 5 – Is-lwybr 2 – Heol y Comin - 23/09/2024**

- **Yn y bore:** 128 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 24 i 46, gyda chyfanswm o 432 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 165 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 26 i 45, gyda chyfanswm o 456 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.10 **Ailymweld â Lleoliad 5 – Is-lwybr 2 – Heol y Comin - 23/09/2024**

- **Yn y prynhawn:** 151 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 19 i 44, gyda chyfanswm o 439 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.11 **Lleoliad 6 – Is-lwybr 1 – Bryn Corn Stores, ger y Siop Garped 24/09/2024**

- **Yn y bore:** 541 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 23, gyda chyfanswm o 160 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 485 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 10 i 21, gyda chyfanswm o 176 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.12 **Ailymweld â Lleoliad 6 – Is-lwybr 1 – Corn Stores Hill, ger Siop y Garped 24/09/2024**

- **Yn y bore:** 563 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 6 i 18, gyda chyfanswm o 122 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.13 **Lleoliad 7 – Is-lwybr 2 – Yr A4054 Heol Pont Siôn Norton yn hen Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton 16/09/2024**

- **Yn y bore:** 526 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 10 i 26, gyda chyfanswm o 197 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 543 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 11 i 25, gyda chyfanswm o 207 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.14 **Ailymweld â Lleoliad 7 – Is-lwybr 2 – Yr A4054 Heol Pont Siôn Norton yn hen Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton 17/09/2024**

- **Yn y prynhawn:** 591 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 10 i 25, gyda chyfanswm o 218 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Mae rhan fer o ramp/llwybr troed rhwng Maes y Ffowndri ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen sy’n defnyddio’r bont droed i groesi’r A470. Nid oes ganddo unrhyw adeiladau yn edrych drosto na gwyliadwriaeth naturiol, ac eithrio gan gerddwyr eraill, ond mae ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd gan rieni a disgyblion sy'n cerdded rhwng Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Byddai’r llwybr troed y tu ôl i Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn elwa o glirio llystyfiant i wella cysur cerddwyr a lefelau goleuo, gweler **ffotograff 6.1** isod.

**Ffotograff 6.1 – Is-lwybr 1 - Trosbont yr A470 y tu ôl i Ysgol Gynradd Coedpenmaen**




6.2 Efallai y bydd hefyd materion eraill nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae'r amseroedd hyn wedi'u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn.

7.3 Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd y prif lwybr nac is-lwybrau 1 a 2 yn ystod y cyfnod a aseswyd.

7.4 Digwyddodd y gwrthdrawiad canlynol ar **Is-lwybr 3**:

**Is-lwybr 3**

- 1 gwrthdrawiad difrifol ychydig i'r de o gyffordd Rhodfa Ilan â chyffordd Heol y Dyffryn. Cerddwr ifanc oedd wedi'i anafu yn y gwrthdrawiad hwn. Dyddiad 17/01/2022.

# 8. Trosolwg Llwybr

## 8.1 Prif Lwybr – Ysbyty Dewi Sant i Ysgol Afon Wen

8.1.1 Mae'r llwybr o fewn terfynau cyflymder 30/20mya.

8.1.2 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.1.3 Mae coed yn hongian dros y droedffordd ar hyd y B4595 Broadway y mae angen eu torri'n ôl i wella lled y llwybr a lefelau cysur cerddwyr.

8.1.4 Mae rhan leol o'r llwybr troed ar y B4595 Broadway lle mae lled y droedffordd tua 600mm (coed yn culhau'r llwybr), a all olygu bod angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd.

8.1.5 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.1.6 Mae ymchwiliadau i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'u cynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.1.7 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.1.8 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan â signalau– Ar y Stryd Fawr i'r de o'r gyffordd â'r A4058 Broadway.
- Croesfan â signalau– Ar gyffordd B4595 Broadway â'r A4058 Broadway.
- Croesfan â signalau– Ar gyffordd B4595 Broadway â Stryd Fothergill.
- Croesfan Sebra – Tu allan i Ysgol Parclewis ar B4595 Broadway.
- Croesfan â signalau– Ar yr A4054 Heol Caerdydd wrth y Bont Cyswllt Teithio Llesol newydd i Orsaf Trefforest.
- Croesfan Sebra – Ar yr A4054 Ffordd y Coleg i'r gorllewin o'r gyffordd â Stryd Ebenezer.
- Croesfan Sebra – Ar yr A4054 Ffordd y Coleg i'r de o'r gyffordd â Heol y Dyffryn.
- Croesfan â signalau– ar yr A4054 Heol Caerdydd i'r gorllewin o'r gyffordd â Lôn yr Ysgol.

8.1.9 Lle mae arolygon llif traffig a bylchau wedi'u cynnal mewn mannau croesi posibl/presennol heb eu rheoli (ar gyfer amseroedd ysgol yn y bore ac yn y prynhawn), maent yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

## 8.2 Is-lwybr 1 – Trallwng i Bont y Doctor

8.2.1 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 30/20mya.

8.2.2 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.2.3 Mae coed yn hongian dros y llwybr troed rhwng Ysgol Gynradd Coedpenmaen a throsbont yr A470. Mae angen cynnal a chadw coed yn barhaus. Mae'r llwybr troed hwn hefyd yn dangos arwyddion cynnar o fethiant.

8.2.4 Mae ynys loches gul i gerddwyr ar groesfan system gylchu Stryd y Bont. Mae arolygon wedi'u cynnal i gadarnhau bod cyfleoedd eraill i groesi Bryn Corn Stores sy'n cydymffurfio â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Dylid nodi bod llwybr arall 'ar gael' yn bodoli o'r Sgwâr Canolog, Trallwng ar hyd y Stryd Ganol, Stryd y De, Stryd Llanofer, Stryd y Bont, Stryd y Taf a'r Stryd Fawr i ymuno â'r prif lwybr yn Broadway. Mae’r llwybr hwn yn cynnig dewis arall yn lle cerdded dros y bont droed i Heol Coedpenmaen a chroesi Bryn Corn Stores, gyda chyfnodau i gerddwyr wedi'u rheoli gan signalau wrth i’r llwybr gyrraedd a gadael Canol Tref Pontypridd.

8.2.5 Mae rhannau lleol o droedffordd ar yr A4054 Heol Pentrebach lle mae lled y llwybr troed yn <1metr, a all olygu bod angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd.

8.2.6 Mae llystyfiant ymylon yn ymledu i lwybrau troed ar hyd rhannau o'r A4054 Heol Pentrebach, lle mae lled y llwybr troed yn cael ei gulhau i tua <1metr. Gall hyn olygu bod angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd. Mae angen gwaith cynnal a chadw parhaus er mwyn sicrhau y gall cerddwyr basio'n ddiogel.

8.2.7 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.2.8 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi’i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.2.9 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.2.10 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

8.2.11 Croesfan â signalau– Ar Heol Pentrebach i’r dwyrain o’r gyffordd â Ffordd y Fynwent.

8.2.12 Mae rhan o’r llwybr rhwng Maes y Ffowndri ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen sy’n defnyddio’r bont droed i groesi’r A470, heb unrhyw adeiladau yn edrych drosto na gwyliadwriaeth naturiol ond sy’n cael ei defnyddio’n helaeth gan gerddwyr. Dylid nodi bod llwybr arall 'ar gael' yn bodoli o'r Sgwâr Canolog, Trallwng ar hyd y Stryd Ganol, Stryd y De, Stryd Llanofer, Stryd y Bont, Stryd y Taf a'r Stryd Fawr i ymuno â'r prif lwybr yn Broadway. Mae’r llwybr hwn yn cynnig dewis arall yn lle cerdded dros y bont droed i Heol Coedpenmaen a chroesi Bryn Corn Stores, gyda chyfnodau i gerddwyr wedi'u rheoli gan signalau wrth i’r llwybr gyrraedd a gadael Canol Tref Pontypridd.

8.2.13 Lle mae arolygon llif traffig a bylchau wedi'u cynnal mewn mannau croesi posibl/presennol heb eu rheoli (ar gyfer amseroedd ysgol yn y bore ac yn y prynhawn), maent yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

## 8.3 Is-lwybr 2 – Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i Heol Pentrebach

8.3.1 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 20mya.

8.3.2 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.3.3 Mae darnau lleol o droedffordd ar hyd yr A4054 Ffordd Merthyr, lle mae cerbydau'n rhwystro llwybrau troed sy'n effeithio ar lwybrau cerdded. Mae carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.3.4 Mae darnau ar wahân o droedffordd ar hyd yr A4054 Ffordd Merthyr lle mae lled y droedffordd yn lleihau i tua 1 metr, a all olygu bod angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd.

8.3.5 Mae llystyfiant ymylon yn ymledu i lwybrau troed ar hyd rhannau o'r A4054 Heol Pentrebach, lle mae lled y llwybr troed yn cael ei gulhau i tua <1m. Gall hyn hefyd olygu bod angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd. Mae angen gwaith cynnal a chadw parhaus i sicrhau y gall cerddwyr basio'n ddiogel.

8.3.6 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.3.7 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.3.8 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.3.9 Nid oes cyfleusterau croesi wedi'u rheoli ar hyd y llwybr hwn.

8.3.10 Lle mae arolygon llif traffig a bylchau wedi'u cynnal mewn mannau croesi posibl/presennol heb eu rheoli (ar gyfer amseroedd ysgol yn y bore ac yn y prynhawn), maent yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

## 8.4 Is-lwybr 3 – Heol Caerdydd i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

8.4.1 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 20mya.

8.4.2 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.4.3 Mae darnau lleol o droedffordd ar hyd Coedlan Glyn-dŵr lle mae cerbydau'n rhwystro llwybrau troed sy'n effeithio ar lwybrau cerdded. Mae carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.4.4 Mae darnau ar wahân o droedffordd ar hyd Stryd y Leimwydden lle mae lled y llwybr troed yn lleihau i tua <1m metr, lle gall cerddwyr ddefnyddio mannau "cam i lawr" i mewn i'r ffordd gerbydau neu'r ymyl i basio ei gilydd.

8.4.5 Mae llystyfiant ymylon yn ymledu ar hyd rhannau o'r llwybr troed ar hyd Stryd y Celyn Street lle mae lled y llwybr troed yn <1metr. Gall hyn hefyd olygu bod angen i gerddwyr ildio er mwyn osgoi camu i'r ffordd gerbydau i basio ei gilydd. Mae angen gwaith cynnal a chadw parhaus i sicrhau y gall cerddwyr basio'n ddiogel.

8.4.6 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.4.7 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Roedd 1 gwrthdrawiad difrifol yn ymwneud â cherddwr ifanc yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.4.8 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.4.9 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan â signalau – Ar Stryd y Celyn i'r gorllewin o'r gyffordd â Stryd y Ffawydd.

8.4.10 Ni thybiwyd bod angen cyfrifiadau traffig ac arolygon bylchau, gan fod digon o groesfannau wedi'u rheoli a heb eu rheoli ar gyfer cerddwyr a oedd yn dymuno croesi ar y llwybr cerdded.

8.4.11 Daeth yr asesiad ar droed i'r cagsliad bod y llwybrau troed cyfagos yn rhai sydd wedi'u cysylltu'n dda ar hyd y llwybr, gyda chyfleusterau croesi digonol (rhai wedi'u rheoli a heb eu rheoli) a chyfnodau i gerddwyr wrth oleuadau traffig i gerddwyr allu croesi'n ddiogel.

# 9. Casgliadau ac Argymhellion

## 9.1 Prif Lwybr – Ysbyty Dewi Sant i Ysgol Afon Wen

9.1.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i'w gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn cael ei gyfyngu gan fagiau du a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.2 Is-lwybr 1 – Trallwng i Bont y Doctor

9.2.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn cael ei gyfyngu gan fagiau du a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.3 Is-lwybr 2 – Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i Heol Pentrebach

9.3.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn cael ei gyfyngu gan fagiau du a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.4 Is-lwybr 3 – Heol Caerdydd i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i'w gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn cael ei gyfyngu gan fagiau du a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

REDSTART

Quest House
St Mellons Business Park
Fortran Rd, St. Mellons
Cardiff
CF3 0EY

www.redstartwales.com